



# Enghraifft o Bolisi lechyd a Diogelwch Ysgol Gynradd



**Nodwch y  
Dyddiad  
Cwblhau Yma**

# Adran 1: Datganiad o'r Polisi Tân

## Cyflwyniad

Cafodd y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) ei roi ar waith ar 1 Hydref 2006. Roedd hyn yn disodli'r holl ddeddfwriaeth flaenorol ynglŷn â diogelwch tân.

**Nod y ddeddfwriaeth yw rhoi mwy o bwyslais ar atal tanau, gan ofalu bod y rheiny sydd â chyfrifoldeb am adeiladau yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol yn llawer mwy penodol nac o dan y ddeddfwriaeth flaenorol ynghylch tanau, yn ogystal â chymryd y camau rhagofal cyffredinol sydd eu hangen er mwyn diogelu'r holl bobl berthnasol rhag niwed.**

## Datganiad Polisi

Mae'n debyg mai tân yw'r perygl mwyaf difrifol y rhan fwyaf o staff ysgolion yn eu hwynebu. Bydd modd i dân gynnu bron mewn unrhyw le, ar unrhyw adeg, gan effeithio ar bawb. O ganlyniad i hynny, nod cyffredinol Pennaeth a Chorff Llywodraethu (**enw'r ysgol**) yw lleihau'r risgiau y gallai tân ei beri i staff, disgyblion ac ymwelwyr. Caiff hyn ei wneud drwy sicrhau y caiff camau eu cymryd er mwyn atal tân rhag cynnu, a rhoi gweithdrefnau ar waith a fydd yn lleihau effaith y tân yn ogystal â gwacáu'r safle.

## Rheoli Diogelwch Tân

Y Pennaeth, (**enw'r person**), yw'r **Rheolwr Diogelwch Tân** penodedig ar gyfer yr ysgol. Prif ddyletswyddau'r **Rheolwr Diogelwch Tân** yw:

- sicrhau y caiff Asesiad Risg Diogelwch Tân ei gynnal ac y caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu;
- rhoi'r argymhellion sy'n deillio o'r Asesiad Risg Diogelwch Tân ar waith;
- sicrhau bod y staff yn meddu ar wybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant digonol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau;
- llunio cynllun mewn argyfwng a gosod hysbysiadau tân;
- cynnal ymarferion tân;
- sicrhau bod y goleuadau mewn argyfwng, y larwm tân, y system canfod tân a'r offer diffodd tân yn ddigonol, a threfnu eu bod nhw'n cael eu cynnal a'u cadw;
- trafod materion diogelwch tân gyda'r unigolion perthnasol;
- cynnal gwiriadau anffurfiol cyson, yn ogystal ag archwiliadau tân rheolaidd a chofnodi'r canfyddiadau;
- bod llwybrau diangfeydd tân a drysau gwacáu'r adeilad heb rwystrau a bod y drysau'n gweithio'n gywir;
- bod cyfarwyddyd a/neu hyfforddiant priodol yn cael eu rhoi i bawb, gan gynnwys contractwyr ac ymwelwyr eraill, ynglŷn â'r camau gweithredu i'w cymryd pe bai tân yn cychwyn neu ar ganiad y larwm tân;
- sicrhau bod y Llyfr Cofnodion Diogelwch Tân yn cael ei ddiweddarau a bod modd cael gafael arno'n hawdd.

**Bydd y Rheolwr Diogelwch Tân** yn trefnu bod cymorth a chyngor addas a thechnegol ar gael yn ôl yr angen wrth roi'r polisi yma ar waith.

**Bydd y Rheolwr Diogelwch Tân** yn sicrhau y caiff adnoddau addas eu darparu er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol yr ysgol. Bydd y polisi yma'n cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd er mwyn gofalu'i bod hi'n effeithiol a bod unrhyw newidiadau sydd wedi'u pennu yn cael eu gwneud. Caiff y polisi yma ei roi ar hysbysfyrdau a'i drafod mewn cyfarfodydd staff.

**Bydd y Rheolwr Diogelwch Tân** yn atgoffa pob aelod staff o'u dyletswyddau o ran iechyd a diogelwch, ni waeth beth fo'u statws, ac yn eu hatgoffa i gymryd cyfrifoldeb rhesymol dros eu diogelwch eu hunain a diogelwch eraill. Rhaid i staff gydweithio â'r garfan reoli er mwyn galluogi'r cyflogwr i gyflawni ei ddyletswyddau.

.....

**Llofnod:  
(Pennaeth Ysgol)**

**Dyddiad:**

.....  
Llofnod ar ran y Corff Llywodraethu:  
(Cadeirydd y Corff Llywodraethu)

Dyddiad:

## Adran 2: Trefniadau er mwyn cyflawni'r polisi

Mae'r ysgol yn cydnabod ei dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth diogelwch tân, ac mae hi wedi rhoi'r trefniadau ymarferol canlynol ar waith er mwyn cyflawni'r dyletswyddau yma.

### Asesiad Risg Diogelwch Tân

Bydd y Rheolwr Diogelwch Tân yn sicrhau y caiff asesiad risg diogelwch tân ei gyflawni. Bydd yr asesiad risg yn nodi pob canfyddiad pwysig. Yn ogystal â hynny, bydd y Swyddog Diogelwch Tân yn llunio cynllun gweithredu â blaenoriaethau sy'n nodi pa waith sydd angen ei gyflawni. Dylai'r asesiad ystyried gweithgareddau yn ystod y dydd yn ogystal â gweithgareddau a gaiff eu cynnal y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Er enghraifft, clybiau ar ôl ysgol, dosbarthiadau gyda'r nos, nosweithiau rhieni ac ati. Bydd y Rheolwr Diogelwch Tân yn llunio cynlluniau mewn argyfwng ar gyfer yr ysgol, a fydd yn ystyried canfyddiadau'r asesiad risg diogelwch tân.

Bydd y Rheolwr Diogelwch Tân yn adolygu'r asesiad risg diogelwch tân bob blwyddyn, ac yn rhoi gwybod i'r corff lywodraethu a'r Awdurdod Lleol am unrhyw broblemau sy'n ymwneud â tân. Caiff yr Asesiad Risg Diogelwch Tân ei adolygu unwaith eto os caiff newidiadau sylweddol eu gwneud i adeilad yr ysgol neu'r gweithgareddau a gaiff eu cynnal yn yr ysgol.

Dyddiad yr Asesiad Risg Diogelwch Tân a'r cynllun gweithredu diwethaf yw (**nodwch y dyddiad**). Cafodd ei gynnal gan (**enw'r person/contractwr**) ar ran yr ysgol. Caiff yr Asesiad Risg Diogelwch Tân a'r cynllun gweithredu ei gadw yn (**location**).

### Hyfforddiant/Cyfarwyddyd o ran Diogelwch Tân

Bydd y Rheolwr Diogelwch Tân yn sicrhau bod hyfforddiant diogelwch tân digonol yn cael ei ddarparu i staff. Bydd math yr hyfforddiant yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Asesiad Risg Diogelwch Tân a nodweddion penodol yr ysgol. Yn ogystal â hynny, bydd e'n:

- egluro'r gweithdrefnau mewn argyfwng;
- ystyried y gweithgarwch o ran gwaith ac egluro dyletswyddau a chyfrifoldebau'r staff;
- cael ei gynnal yn ystod oriau gwaith arferol a chaiff ei ailadrodd fel sy'n briodol;
- hawdd ei ddeall i staff ac unigolion eraill a allai fod yn bresennol;
- cael ei brofi drwy ymarferion tân.

Yn ogystal â hynny, bydd rhywfaint o'r hyfforddiant yn cynnwys disgyblion. Bydd y disgyblion yn dysgu lle mae'r allanfydd tân ac yn cael hyfforddiant sylfaenol ynglŷn â beth i'w wneud os bydd tân yn digwydd. Bydd pob aelod o staff sydd wedi'i enwi yn oruchwyliwr os hydd tân yn y cynllun mewn argyfwng (swyddogion/wardeiniaid tân) yn cael hyfforddiant ychwanegol.

Bydd y Rheolwr Diogelwch Tân yn adolygu'r hyfforddiant bob blwyddyn er mwyn gweld a oes galw am ragor o hyfforddiant penodol. Caiff pob aelod o staff asiantaeth/staff sy'n ymweld â'r safle ei hysbysu o'r weithdrefn wacáu mewn argyfwng yn ystod sesiwn sefydlu cyn dechrau yn y swydd. Bydd yr ysgol yn egluro'r amserlen hyfforddiant i bob aelod o staff newydd ar ei ddiwrnod cyntaf, a hynny'n rhan o'u sesiwn sefydlu.

Caiff yr holl hyfforddiant a sesiynau sefydlu a gaiff eu cynnal eu cofnodi yn y Llyfr Cofnodion Diogelwch Tân sydd wedi'i gadw yn y swyddfa.

Mae rhagor o fanylion ynglŷn â' hyfforddiant yn Atodiad 1.

### Ymarferion Tân

**Mae'r Rheolwr Diogelwch Tân** yn gyfrifol am sicrhau y caiff ymarferion tân eu cynnal. Caiff ymarferion tân eu cynnal er mwyn amlygu at broblemau posib cyn y bydd sefyllfa frys yn codi. Caiff y camau y dylai staff a disgyblion eu cymryd yn ystod y broses yma eu hymarfer a'u gwella.

Mae prif banel y larwm wedi'i lleoli yn **(lleoliad)**. Caiff ymarferion tân eu cynnal gan y **Rheolwr Diogelwch Tân** drwy brif banel y larwm. Bydd yr amser a dydd yr wythnos y caiff yr ymarfer ei gynnal yn amrywio. Bydd rhai ymarferion yn digwydd ar hap, yn ddirybudd. Serch hynny, caiff rhai ymarferion eu cynllunio ymlaen llaw, a bydd y staff yn cael hysbysiad er mwyn sicrhau ei bod nhw'n effro i'r gweithdrefnau.

Caiff ymarferion tân eu cynnal bob tymor gan **(enw'r person)**. Weithiau, bydd y Rheolwr Diogelwch Tân yn ystyried rhwystro allanfeydd yn fwriadol er mwyn profi gwybodaeth unigolion a gweithdrefnau'r safle. Pan gaiff ymarfer ei gynnal, caiff hynny ei gofnodi yn y llyfr cofnodion, yn ogystal ag unrhyw sylwadau a gafodd eu nodi yn ystod yr ymarfer. Caiff unrhyw larymau damweiniol eu defnyddio fel ymarferion, a byddan nhw'n cael eu cofnodi yn y llyfr cofnodion hefyd. Yn rhan o'r gwaith monitro lechyd a Diogelwch, bydd y Rheolwr Diogelwch Tân yn gwirio'r Llyfr Cofnodion Diogelwch Tân yn rheolaidd at ddibenion cydymffurfio.

### Gwacáu'r Safle

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am gofio bod achub a diogelu bywydau yn cael blaenoriaeth dros ddiogelu eiddo.

Yn ystod gwersi, mae'r Athro ac unrhyw Gynorthwyyr Dosbarth yn gyfrifol am gael y disgyblion allan o'r adeilad yn ddiogel. Caiff y Cynllun mewn Argyfwng a'r Hysbysiadau Diogelwch Tân eu gosod ym mhob ystafell ddosbarth, ym mhob man casglu ac mewn mannau strategol eraill ym mhob rhan o'r ysgol (gweler Atodiadau 2 a 4). Bydd y Pennaeth, neu aelod o staff sydd wedi'i enwebu, yn llunio Cynllun Gwacáu mewn Argyfwng Personol ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anabledau.

Ar ôl seinio'r larwm, bydd yr holl staff/disgyblion/ymwelwyr yn ymgynnull yn y man ymgynnull, sef (**nodwch leoliad y man ymgynnull**), oni bai fod dim modd gwneud hynny oherwydd y tân. Yn y man ymgynnull, bydd yr unigolion sydd wedi'u henwebu (Athrawon Dosbarth) yn cyfrif nifer y disgyblion ac yn darllen y gofrestr yn syth. Byddan nhw'n rhoi gwybod i'r Rheolwr Diogelwch Tân (neu'r dirprwy bennaeth os yw e/hi'n absennol) am unrhyw un sydd ar goll.

Dylai pob drws gael ei gau ar ôl i'r unigolyn olaf ddod drwyddo. Bydd hyn yn rhwystro'r tân rhag lledaenu ac yn lleihau'r difrod. Mae arwyddion clir yn nodi'r pob llwybr i'r allanfeydd tân.

**Os bydd unrhyw ymwelwyr ar y safle, bydd y sawl maen nhw'n ymweld â nhw yn gyfrifol amdany'n nhw. Byddan nhw'n mynd â'r ymwelydd i'r allanfa dân a'r man ymgynnull. Bydd (**enw'r person**) yn mynd â'r llyfr ymwelwyr allan i'r man ymgynnull.**

Rhaid i (**enw'r person**) gyfarch contractwyr ar y safle cyn iddyn nhw ddechrau ar y gwaith. Byddan nhw'n cael eu hysbysu o'r gweithdrefnau tân ac yn cael cyfarwyddiadau ynglŷn â gofynion cadw tŷ, gan gynnwys storio gwastraff. Mae modd cael rhagor o ganllawiau mewn perthynas â rheoli contractwyr ym Mholisi Iechyd a Diogelwch - Rheoli Contractwyr y Cyngor (HS23).

Yn ystod perfformiadau ysgol neu achlysuron eraill lle mae nifer fawr o'r cyhoedd yn bresennol, bydd y Rheolwr Diogelwch Tân yn sicrhau bod pob dihangfa yn glir ac yn amlwg. Caiff unrhyw unedau llwyfan neu seddi eu gosod mewn modd lle dydyn nhw ddim yn creu perygl nac yn rhwystro diangfeydd. Caiff y trefniadau o ran gwacáu pan fydd tân yn cael eu rhannu â'r gynulleidfa cyn i'r perfformiad ddechrau. Peidiwch â gadael gormod o bobl i mewn - glynwch at y mwyafswm swyddogol.

Y Rheolwr Diogelwch Tân (neu'r Dirprwy Bennaeth os yw e/hi'n absennol) sy'n gyfrifol am gymryd rheolaeth a chyfathrebu yn y Man Ymgynnull Tân. Bydd e'n gofyn i staff ac eraill am adroddiadau, gan wneud nodyn o'r rheiny sydd ar goll yn ôl staff a rhoi gwybod i'r gwasanaethau bryd am hyn pan fyddan nhw'n cyrraedd.

**Systemau Canfod Tân a Larymau, Goleuadau mewn Argyfwng a Chyfarpar Diffodd Tân**

Mae'n hanfodol fod y systemau uchod yn cael eu profi a'u cynnal a'u cadw er diogelwch pawb sydd yn yr adeilad. Caiff y gwaith o brofi'r systemau yma a'u cynnal a'u cadw ei rannu rhwng y profion hynny a gaiff eu cynnal gan (**enw'r person penodedig**) a'r profion a gaiff eu cynnal gan y contractwr penodedig. Y Rheolwr Diogelwch Tân sy'n gyfrifol am sicrhau bod y ddwy gyfres o brofion yn cael eu cyflawni a'u nodi'n glir yn y llyfr cofnodion tân/ (Gweler atodiad 3 am grynodedig o'r profion a'r gwiriadau a gaiff eu cynnal gan y person penodedig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y llyfr cofnodion tân).

**Y contractwr/contractwyr sy'n gyfrifol am brofi, archwilio a chynnal a chadw'r System Canfod Tân a'r Larwm** yw (enw, cyfeiriad a manylion y contractwr). Mae'r ysgol yn dilyn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a gafodd ei sefydlu drwy'r gwasanaeth Safleoedd a Chyfleusterau ac yn cael **ymweliadau chwarterol**\* gan y contractwr penodedig.

**Y contractwr/contractwyr sy'n gyfrifol am brofi, archwilio a chynnal a chadw'r Golau mewn Argyfwng** yw (enw, cyfeiriad a manylion y contractwr). Mae'r ysgol yn dilyn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a gafodd ei sefydlu drwy'r gwasanaeth Safleoedd a Chyflusterau ac yn cael **ymweliadau chwarterol**\* gan y contractwr penodedig.

**Y contractwr/contractwyr sy'n gyfrifol am brofi, archwilio a chynnal a chadw'r Offer Diffodd Tân** yw (enw, cyfeiriad a manylion y contractwr). Mae'r ysgol yn dilyn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a gafodd ei sefydlu drwy'r gwasanaeth Safleoedd a Chyflusterau ac yn cael **ymweliad blynyddol**\* gan y contractwr penodedig.

\* Y **Rheolwr Diogelwch Tân** sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r gwasanaeth Safleoedd a Chyfleusterau os dydy'r offer ddim wedi cael ei brofi, ei archwilio a'i gynnal mor aml ag y dylen nhw fod.

Mae Atodiad 3 yn nodi pa mod aml y dylai'r larwm tân a'r system canfod tân, yr offer diffodd tân, y goleuadau mewn argyfwng a'r drysau a'r diangfeydd tân gael eu profi. Noder – - Rhaid cadw cofnodion o'r profion yma yn y Llyfr Cofnodion Diogelwch Tân sydd yn swyddfa'r Ysgol/Ysgrifennydd.

### **Allanfeydd a diangfeydd mewn Argyfwng**

**Rhaid cadw'r allanfeydd a'r diangfeydd tân yn glir bob amser. Caiff hyn ei fonitro'n ddyddiol gan bob aelod o staff, a byddan nhw'n rhoi gwybod i'r Rheolwr Diogelwch Tân am unrhyw beryglon. Pan fydd nifer fawr o bobol yn dod at ei gilydd, er enghraifft, ar gyfer perfformiadau ysgol, rhaid i chi roi gwybod i bob ymwelydd am yr allanfeydd tân yn ogystal â sicrhau bod yr allanfeydd yn glir.**

### **Hysbysiadau Tân**

**Mae hysbysiadau tân, gan gynnwys y cynllun mewn argyfwng, wedi'u gosod ym mhob ystafell ddosbarth ger pob man galw. Rhaid i bob aelod o staff a disgybl sicrhau eu bod nhw'n gyfarwydd â nhw ac yn gwybod lle mae'r man(nau) ymgynnull priodol.**

### **Arddangosfeydd**

Rhaid cadw arddangosfeydd mor gynnil â phosibl, a dylech chi beidio â'u gosod nhw mewn coridorau neu ar risiau sy'n rhan o ddiangfeydd tân. Rhaid cadw arddangosfeydd i ffwrdd o allanfeydd, llenni a ffynnonellau gwres, a rhaid iddyn nhw beidio â chuddio hysbysiadau tân, manau galw, offer diffodd tân, goleuadau ac ati.

## Llogi

Caiff cytundebau gosod ffurfiol eu rhoi ar waith bob amser y caiff adeilad yr ysgol ei llogi at unrhyw ddiben. Mae hyn yn sicrhau bod dim effaith ar ddiogelwch na'r trefniadau cynnal a chadw. Bydd pawb sy'n llogi adeilad yr ysgol yn cael eu hysbysu o'r gweithdrefnau mewn argyfwng, lleoliad yr allanfeydd tân a'r diangfeydd (gan gynnwys llwybrau amgen), lleoliad y mannau galw a'r offer diffodd tân, a sut i weithio'r panel larwm tân. Dylai unrhyw un sy'n llogi'r adeilad wybod sut i gysylltu â'r gwasanaethau argyfwng a lleoliad y ffôn agosaf. Mae modd i'r Rheolwr Diogelwch Tân gyfyngu'r defnydd a gaiff ei wneud o'r adeilad pan gaiff ei logi, gan gynnwys nifer y bobl y mae modd iddyn nhw ddod i mewn i'r adeilad a'r ffordd y caiff y seddi eu gosod ac ati. Dylech chi gysylltu ag adran Ystadau'r Cyngor am ragor o wybodaeth.

## Ysmygu

Does dim caniatâd i chi ysmygu yn yr ysgol nag o'i hamgylch.

## Tanau bwriadol

Er mwyn osgoi tanau bwriadol bydd y Rheolwr Diogelwch Tân yn sicrhau bod yr Asesiad Risg Diogelwch Tân yn amlygu pa mor agored yw'r ysgol i achosion posibl o gynnu tanau bwriadol, er enghraifft, biniau sbwriel a gaiff eu cadw'n rhy agos at yr ysgol, diogelwch gwael, achosion blaenorol ac ati.

## Dull o alw'r Gwasanaeth Tân

Os bydd y larwm tân yn canu, bydd **(enw neu swydd y person penodedig) yn galw'r gwasanaeth tân ar (9) 999**. Ar gyfer unrhyw glybiau ar ôl ysgol neu unrhyw un sydd wedi llogi'r adeilad y tu allan i oriau arferol yr ysgol, bydd **(enw neu sydd y person dynodedig) yn galw'r Gwasanaeth Tân ar (9) 999**.

## Rhoi Gwybod am Achosion o Dân

Caiff y Rheolwr Diogelwch Tân wybod am bob achos o dân, a bydd e'n sicrhau y caiff yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Llywodraethu a Charfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor eu hysbysu.



**Cafodd y polisi yma ei gytuno gan y Pennaeth a Chorff Llywodraethu'r Ysgol ar (Dyddiad).**

Llofnodwyd ar ran y Corff Llywodraethu  
.....  
(Cadeirydd y Corff Llywodraethu)

Llofnodwyd gan y Pennaeth  
.....

Dyddiad .....

**Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol.**

Gwybodaeth/Canllawiau Ychwanegol

[Asesiad Risg Diogelwch Tân - Safle Addysgol](#)

[Fire Safety - Managing School Facilities Guide 6 - AdAS - 2000](#)

**Hyfforddiant Diogelwch Tân**

**Bydd y Rheolwr Diogelwch Tân** yn darparu hyfforddiant gloywi/cyfarwyddyd blynyddol i bob aelod o staff. Bydd yr hyfforddiant yma'n cynnwys:

- beth i'w wneud os byddwch chi'n darganfod tân; sut i roi gwybod i bobl a'r hyn sy'n digwydd wedyn;
- sut i weithio'r panel larwm tan; beth i'w wneud pan fyddwch chi'n clywed y larwm;
- y gweithdrefnau er mwyn tynnu sylw disgyblion, y cyhoedd ac ymwelwyr at dân, gan gynnwys eu harwain nhw at allanfa lle y bo hynny'n briodol;
- y trefniadau ar gyfer ffonio'r gwasanaeth tân ac achub;
- y gweithdrefnau gwacáu ar gyfer pawb sydd ar y safle (gan gynnwys plant bach a'r rheiny sydd â phroblemau symudedd), er mwyn eu galluogi nhw i gyrraedd man ymgynnull sy'n gwbl ddiogel.
- lleoliad yr offer diffodd tan a sut i'w ddefnyddio (lle y bo hynny'n briodol);
- lleoliad y diangfeydd, yn enwedig y rheiny sydd ddim yn cael eu defnyddio'n rheolaidd;
- pwysigrwydd cadw drysau tân ar gau er mwyn atal tân, gwres a mwg rhag lledaenu; sut i agor pob drws tân;
- sut i ddiffodd peiriannau a phrosesau ac ynysu pŵer, os yw hynny'n berthnasol adnoddau os bydd tân;
- y rheswm dros beidio â defnyddio lifftiau;
- sut i ddefnyddio deunyddiau fflamadwy a ffrwydrol iawn, a'r peryglon sy'n codi wrth eu cadw neu weithio gyda nhw;
- pwysigrwydd diogelwch tân cyffredinol, sy'n cynnwys gwaith cynnal a chadw da;
- **gwybodaeth am adegau pan fydd cyrff eraill yn defnyddio'r safle.**

**Swyddogion Tân**

**Bydd staff y mae disgwyl iddyn nhw gyflawni gwaith swyddogion/wardeiniaid tân yn cael hyfforddiant mwy cynhwysfawr. Efallai y bydd eu rôl nhw'n cynnwys:**

- **helpu'r rheiny sydd ar y safle i adael;**
- **sicrhau bod pawb wedi gadael y safle;**
- **defnyddio offer diffodd tân os yw hynny'n ddiogel;**
- **gweithio gyda'r gwasanaeth tân ac achub pan fyddan nhw'n cyrraedd;**
- **diffodd cyfarpar pwysig neu beryglus;**
- **sut i gyflawni swydd oruchwylio/rheoli mew unrhyw sefyllfa os bydd tân.**

**Efallai y bydd yr hyfforddiant ar gyfer y swydd yma'n cynnwys:**

- **gwybodaeth fanwl am strategaeth diogelwch tân y safle;**
- **sut i annog eraill i ddefnyddio'r ddihangfa fwyaf priodol;**

- sut i chwilio am bobl yn ddiogel ac adnabod ardaloedd sydd ddim yn ddiogel;
- Hyfforddiant ychwanegol ar ddefnyddio offer diffodd tân.

Mae modd cael rhagor o wybodaeth yng nghanllawiau'r llywodraeth:  
[Asesiad Risg Diogelwch Tân - Safle Addysgol](#)

Example

## Atodiad 2

### Cynllun mewn Argyfwng

Os bydd tân yn dod i'r amlwg, mae pob aelod o staff yn effro i'r ffaith mai diogelu bywydau yw eu cyfrifoldeb pennaf. Er mwyn gwneud hyn, dylech chi ddilyn y weithdrefn isod. Bydd y larwm tân yn canu'n barhaus er mwyn tynnu eich sylw at y tân.

<b>Dylai unrhyw un sy'n darganfod tân wneud y canlynol:</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• rhoi gwybod i eraill am y tân drwy fynd i'r man galw agosaf. Mae man galw ar bob dihangfa;</li><li>• defnyddio'r offer diffodd tân os yw'n ddiogel i wneud hynny, ac os ydych chi wedi cael hyfforddiant i wneud hynny;</li><li>• gwacáu'r adeilad a mynd i'r man ymgynnull penodedig;</li><li>• rhoi gwybod i'r <b>Rheolwr Diogelwch Tân</b> cyn gynted ag y bo modd a rhoi gwybodaeth fanwl am y tân iddo;</li></ul>
<b>Beth i'w wneud os fydd y larwm yn canu</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• bydd <b>ysgrifennydd yr ysgol</b> yn ffonio (9)999 ac yn gofyn am y Gwasanaeth Tân;</li><li>• <b>bydd yr athrawon a staff cymorth</b> yn dechrau gwacáu'r adeilad ac arwain pobl i'r man ymgynnull penodedig, gan ddefnyddio'r allanfa/allanfeydd agosaf sydd ar gael;</li><li>• bydd <b>ysgrifenyddes yr ysgol</b> yn casglu'r gofrestr, y llyfr mewngofnodi a'r ffôn symudol;</li><li>• sicrhau bod yr holl ffenestri a drysau wedi'u cai, os yw hynny'n bosibl ac yn ddiogel;</li><li>• <b>bydd wardeiniaid tân</b> yn bwrw golwg o amgylch yr ysgol er mwyn sicrhau ei bod hi'n wag a byddan nhw'n rhoi gwybod i'r <b>Rheolwr Diogelwch Tân</b> am hyn;</li><li>• yn y man ymgynnull, bydd yr <b>athrawon dosbarth</b> yn cyfrif nifer y disgyblion ac yn darllen y gofrestr yn syth. Byddan nhw'n rhoi gwybod i'r Rheolwr Diogelwch Tân (neu'r dirprwy bennaeth os yw e/hi'n absennol) am unrhyw un sydd ar goll, fel bod modd rhannu'r wybodaeth yma â'r gwasanaeth tân pan fyddan nhw'n cyrraedd.</li></ul>
<b>Cysylltu â'r Gwasanaethau Brys</b>	<p>Bydd y <b>Rheolwr Diogelwch Tân</b> yn gweithio gyda'r gwasanaethau brys ac yn rhoi gwybod i'r Uwch Swyddog:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• am leoliad y tân;</li><li>• am yr hyn sy'n gysylltiedig â'r tân;</li><li>• am unrhyw risgiau arbennig e.e. unrhyw ddeunyddiau fflamadwy;</li><li>• p'un a yw pawb allan o'r adeilad ai peidio.</li></ul>
<b>Man Ymgynnull</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• y man ymgynnull ar gyfer dosbarthiadau 1 a 2 yw <b>(nodwch y lleoliad)</b>;</li><li>• y man ymgynnull ar gyfer dosbarthiadau 3 a 4 yw <b>(nodwch y lleoliad)</b>;</li></ul>

<b>Defnyddio offer diffodd tân</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• caiff offer diffodd tân ei ddarparu ar bob coridor sy'n ddihangfa, a dylai staff sydd wedi cael hyfforddiant eu defnyddio:</li> <li>• ddylai neb roi eu hun nag eraill mewn perygl wrth geisio diffodd tân:</li> <li>• y flaenoriaeth gyntaf yw gwacáu'r adeilad yn gyflym ac yn ddiogel.</li> </ul>
<b>Cyfrifoldebau staff penodol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• bydd staff y gegin yn sicrhau y caiff yr holl gyfarpar ei ddiffodd a/neu ei ynysu, os yw hi'n ddiogel gwneud hynny.</li> <li>• bydd unrhyw staff un-i-un neu staff cymorth arbennig yn dilyn y gofynion y cynlluniau gwacáu personol mewn argyfwng sydd wedi'u llunio ar gyfer disgyblion penodol.</li> </ul>

Example

**Crynodeb o waith Cynnal a Chadw Diogelwch Tân ar y safle****Cyflwyniad**

Mae'r crynodeb yma'n amlinellu'r gwiriadau a'r profion y mae'n rhaid i'r **Rheolwr Diogelwch Tân** eu cyflawni er mwyn sicrhau bod offer, dyfeisiau a chyfleusterau diffodd tân yn effeithiol, a pha mor aml y mae angen gwneud hynny.

Rhaid i'r Rheolwr Diogelwch Tân nodi manylion unrhyw brofion a gwiriadau yn y llyfr cofnodion tân. Caiff unrhyw ddiffygion a gaiff eu canfod eu cofnodi, ynghyd â'r camau i'w gwella.

Yn ogystal â'r profion a'r gwiriadau a gaiff eu cynnal gan y Rheolwr Diogelwch Tân, mae gan Wasanaeth Cynnal a Chadw'r Cyngor contractau ar waith er mwyn cynnal a chadw'r larwm tân a'r system goleuadau mewn argyfwng **bob chwarter**, yn ogystal â gwirio'r offer diffodd tân yn flynyddol. Os dydy'r contractwyr ddim yn cynnal y profion mor aml ag y dylai, yna dylai'r Rheolwr Diogelwch Tân gysylltu gyda Gwasanaeth Cynnal a Chadw'r Cyngor am gyngor.

**Manylion cyswllt:**

Carfan Iechyd a Diogelwch: 01443 425531  
744444

Cynnal a Chadw'r Cyngor: 01443

<b>Pa mor aml</b>	<b>System</b>	<b>Camau i'w cymryd</b>	<b>Llyfr Cofnodion Tân</b>
<b>Bob dydd</b>	System Larwm Tân	Sicrhau bod panel y larwm yn gweithio'n iawn, chwilio am unrhyw broblemau.	Dim ond cofnodi'r problemau yn y llyfr cofnodion tân
	System Goleuadau mewn Argyfwng	Sicrhau bod y goleuadau a gaiff eu cynnal a'u cadw (y rheiny sydd ymlaen drwy'r amser) wedi'u goleuo, a bod y goleuadau sydd ddim yn cael eu cynnal a'u cadw (sydd ddim ond yn cael eu	Dim ond cofnodi'r problemau yn y llyfr

		goleuo pan fydd y goleuadau arferol yn methu) yn gweithio drwy sicrhau bod y dangosydd bach wedi'i oleuo.	cofnodion tân
	Drysau ac Allanfeydd	Tynnu unrhyw folltiau, cloeon a dyfeisiau diogelwch. Sicrhau bod y diangfeydd a'r drysau yn glir, a bod dim rhwystrau.	Does dim gofyn i chi gofnodi'r gwiriadau yma
<b>Bob wythnos</b>	System Larwm Tân	Profi'r manau torri'r gwydr gan ddefnyddio'r allwedd briodol. Profi man torri gwydr gwahanol bob wythnos ar ffurf rota (gan sicrhau bod unrhyw fecanwaith awtomatig i agor drysau a/neu gloeon awtomatig ar y drysau yn cael eu profi er mwyn gweld a ydyn nhw'n gweithio'n gywir).	Cofnodi'r profion yma yn y llyfr cofnodion
<b>Bob mis</b>	System Larwm Tân	Sicrhau bod dim rhwystrau o ran defnyddio'r man torri gwydr a bod gwagle o amgylch unrhyw ddarganfyddwyr mwg/gwres.	Cofnodi'r profion yma yn y llyfr cofnodion
	System Goleuadau mewn Argyfwng	Sicrhau bod yr holl oleuadau mewn argyfwng yn gweithio'n iawn drwy esgus bod y trydan wedi methu (gan ddefnyddio'r allwedd briodol).	Cofnodi'r profion yma yn y llyfr cofnodion
	Offer Diffodd Tân	Archwilio gweledol - sicrhau bod dim rhwystrau o ran defnyddio'r offer diffodd tân, eu bod yn y safle cywir, gyda'r pwysedd cywir, eu bod wedi'u selio'n gywir a heb eu difrodi.	Cofnodi'r profion yma yn y llyfr cofnodion
	Allanfeydd a diangfeydd Tân	Sicrhau bod y diangfeydd a'r allanfeydd tân yn glir, a bod dim rhwystrau.	Cofnodi'r profion yma yn y llyfr cofnodion